| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Mawrth 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol: a Democrataidd** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015/16** |

---

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015/16 (y 'panel').

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gwneud y Pwyllgor yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16 mewn perthynas â thaliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n trafod goblygiadau ac elfennau dewisol penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Sefydlwyd Panel Taliadau Annibynnol Cymru yn 2008. Cafodd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel eu hymestyn yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau eraill o Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â Chynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol.

4.2 Mae'r Panel yn gallu nodi swm gwirioneddol taliad y gallai awdurdod ei wneud i aelod, a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau posib a fyddai cynghorwyr yn eu gwneud am y tâl hynny.

4.3 Mae'n ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol yn nodi'r lefelau y mae aelodau yn cael eu talu ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf. Mae'r adroddiad hwnnw ynghlwm fel atodiad 1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol i weithredu argymhellion y Panel.

4.4 Mae'r adroddiad yn nodi tri band y Cyngor, yn nodi nifer y cynghorwyr ym mhob band a'r uchafswm o uwch gyflogau y gall y cyngor perthnasol ei dalu. Mae'r grwpiau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 1 o'r adroddiad sydd ynghlwm. Mae Tabl 2 yn cynnwys y cyflog sylfaenol a chyflog uwch a fydd yn daladwy i Aelodau'r Cynghorau yn 2015/16.

4.5 Y llynedd fe benderfynodd y Panel, yn sgîl yr ymlacio cymedrol ar y cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus ac i atal lleihad mewn lefelau cymharol tâl, i gynyddu'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o 0.9%, ac i gynyddu taliadau eraill yn

gyfatebol. Eleni, mae'r Panel wedi penderfynu peidio â chynyddu tâl oherwydd y toriadau parhaus mewn cronfeydd llywodraeth leol.

4.6 Mae'r Panel yn bendant nad yw cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol yn ddigost. Mae tâl a ariennir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl leol brwdfrydig a galluog i ymgymryd â llywodraeth leol, drwy eu hethol, eu penodi neu eu rolau cyfetholedig.

4.7 Ar ôl i'r Panel wneud ei benderfyniadau cychwynnol yn ei adroddiad yn 2009, fe osodwyd taliadau ar enillion gros canolig gweithwyr llawn amser sy'n byw yng Nghymru i'r Aelodau. Gosodwyd y cyflog sylfaenol ar $^{3}/_{5}$ o'r cyflog canolig ar gyfer Cymru Gyfan ac uwch gyflogau ar luosrifau o'r cyflog canolig blynyddol hwn. Wrth osod y cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod cyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

4.8 Cyflogau Dinesig - Y llynedd fe gyflwynodd y Panel lefelau cyfrifoldeb ar gyfer pob cyngor i bennu lefel y taliadau ar gyfer arweinwyr dinesig a dirprwy arweinwyr dinesig. Ar gyfer Sir Ddinbych mae hyn yn golygu Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd y Cyngor. Mae'r lefelau wedi aros yr un fath ac i'w gweld isod.

| | Arweinwyr Dinesig | Dirprwy arweinwyr dinesig |
|---|---|---|
| a | £24,000 | £18,000 |
| b | £21,500 | £16,000 |
| c | £19,000 | £14,000 |

4.9 Ym mis Ebrill 2014, penderfynodd y Cyngor bennu lefel y taliadau ar gyfer Cadeirydd y Cyngor yn £24,000 ac ar gyfer yr Is-gadeirydd yn £14,000. **Mae'r ddau ffigwr yn cynnwys y cyflog sylfaenol y mae gan bob cynghorydd yr hawl iddo sef £13,300**. Nid yw tâl Cyflogau Dinesig wedi'i gynnwys yn y cap ar nifer yr Uwch Gyflogau sydd ar gael i'r awdurdod. Gall y Cyngor benderfynu peidio â thalu unrhyw Gyflogau Dinesig.

4.10 Band 1 a 2 (Uwch Gyflog) - Mae'r Panel wedi penderfynu ar bum band o Uwch Gyflog. Mae Band 1 yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ac mae Band 2 yn cynnwys Aelodau'r Cabinet. Mewn trafodaethau'r Panel gydag Aelodau etholedig ar draws Cymru yn 2013 y barn yn gyson oedd mai arweinwyr a dirprwy arweinwyr gyda rolau gweithredol oedd â'r atebolrwydd mwyaf. Derbyniodd y Panel sylwadau hefyd bod yr atebolrwyddau hyn yn aml yr un fath beth bynnag yw maint y boblogaeth a wasanaethir gan y Cyngor. Fodd bynnag, fe benderfynodd y Panel bod maint y boblogaeth yn parhau i fod yn ffactor pwysig yn lefel y cyfrifoldeb a phenderfynwyd cynnal y defnydd o'r grwpiau poblogaeth fel y nodir yn Nhabl 1 at ddibenion Uwch Gyflogau ym Mandiau 1 a 2.

4.11 Band 3 - Bydd cadeiryddion Pwyllgor yn cael eu talu ar yr un lefel ar draws Cymru; tâl o £22,000 gan gynnwys y cyflog sylfaenol.

4.12 Band 4 a 5 - Mae'r Panel wedi bod o'r farn bod talu arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf yn bwysig i ddemocratiaeth leol. Mae'r Panel felly wedi parhau eu penderfyniad blaenorol i dalu'r Cyflog Uwch (band 4). Mae'r taliad yn cyfateb i lefel y tâl i gadeiryddion pwyllgorau.

4.13 Mae'r Panel wedi nodi mai ychydig iawn o arweinwyr o grwpiau gwleidyddol eraill sy'n cael cyflog wedi'i ddyrannu iddynt mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae'r

Panel wedi penderfynu mewn achosion lle mae cyflogau o'r fath yn cael eu talu y dylai’r lefel fod yn £17,000 y flwyddyn fel y nodir yn Nhabl 2.

4.14 Aelodau Cyfetholedig – Mae Tabl 4 o adroddiad y Panel gyda’r ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig sy'n aros yn ddigyfnewid ers y llynedd ac yn seiliedig ar lwfans mynychu ac amser a ymrwymir hyd at 4 awr (ffi hanner diwrnod) neu dros 4 awr (ffi dyddiol). Mae'r Panel unwaith eto wedi caniatáu i aelodau cyfetholedig sy’n gallu pleidleisio i gynnwys amser teithio ac amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod, gall y swyddog priodol benderfynu (cyn y cyfarfod) i ba raddau sy’n ymddangos yn deg.

4.15 Mae aelodau cyfetholedig hefyd yn gymwys i dderbyn taliadau ffioedd am fynychu cyfarfodydd gweithgor, cyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a mynychu cynadleddau neu unrhyw gyfarfodydd ffurfiol eraill y maent wedi cael gwahoddiad i’w mynychu.

4.16 Milltiroedd a Chyfraddau Chynhaliaeth - dim ond ad-dalu costau teithio ar gyfer eu haelodau s’n ymgymryd â busnes swyddogol y gall yr Awdurdod ei wneud. Nid oes unrhyw newid yn y cyfraddau milltiredd. Mae'r Panel wedi egluro y dylid talu cyfradd rhagnodedig i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy’n cael ei yrru gan rywun arall ar yr amod bod yr awdurdod yn fodlon bod yr aelod wedi mynd i gostau.

4.17 Y llynedd mae’r Panel wedi dileu'r categori aros dros nos yng Nghaerdydd o’r lefelau a argymhellir ar gyfer costau llety dros nos fel bod yna bellach ddim ond cyfradd Llundain a chyfradd i bob man arall.

4.18 Aelod sy’n Llywyddu - Mae Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol 2013 yn caniatáu i awdurdodau lleol i benodi aelod sy'n llywyddu a fyddai’n cadeirio cyfarfodydd busnes y Cyngor yn ychwanegol i arweinydd dinesig. Gall y Cyngor hefyd benodi dirprwy aelod llywyddu. Wrth benodi, byddai aelod sy'n llywyddu yn derbyn tâl ar yr un lefel â chadeirydd y pwyllgor, a byddai'r swydd yn cyfrannu tuag at y cap ar nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu. Ni fyddai swydd y dirprwy aelodau llywyddu yn derbyn tâl.

4.19 Pwyllgorau Archwilio ar y Cyd - Gall dau neu fwy o awdurdodau sefydlu pwyllgorau archwilio ar y cyd a phenderfynu a fydd cadeiryddion y pwyllgorau hynny (neu is-bwyllgor i bwyllgor archwilio ar y cyd) yn cael eu talu. Os penderfynir eu talu bydd y canlynol yn berthnasol:

- Mae Cadeirydd y Cyd Bwyllgor Archwilio yn gymwys i gael cyflog sy'n cyfateb i'r rhan honno o fand 3 (Uwch Gyflog) y mae Cadeirydd y Pwyllgor yn ei dderbyn; sef £8,700
- Mewn achosion lle mae'r Cadeirydd eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer band 3, 4 neu 5 yna y taliad fydd £4,350
- Mae Cadeirydd is-bwyllgor i bwyllgor archwilio ar y cyd yn gymwys i gael cyflog o £2,175.
- Mewn achosion lle mae Cadeirydd is-bwyllgor eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer rôl band 3, 4 neu 5, y taliad fydd £1,090
- Ni fydd is-gadeirydd pwyllgor archwilio ar y cyd neu is-bwyllgor yn derbyn tâl
- Nid yw taliadau i Gadeirydd pwyllgor archwilio ar y cyd neu is-bwyllgor yn cael eu cyfrif fel rhan o uchafswm Sir Ddinbych o gynghorwyr (17) a all dderbyn taliadau uwch gyflog er bod terfyn statudol o ddim mwy na 50% o aelodaeth y cyngor i dderbyn taliadau uwch gyflog.

4.20 Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig - Mae'r Panel wedi cael pwerau newydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i gyflog y pennaeth gwasanaeth hy cyflog y prif weithredwr, neu i adolygu polisi cyflog yr awdurdodau yn gyffredinol ar gyfer tâl prif weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ar newidiadau arfaethedig yn ôl at yr awdurdod.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel ac nid yw'n cyfrannu ynddo'i hun at y Blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae adroddiad blynyddol y Panel yn parhau gyda lefelau tâl 2014/2015 sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau presennol.

**7 Pa ymgynghori a wnaed, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

7.1 Ymgynghorir â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan ofyn am ei sylwadau fel rhan o'r broses ymgynghori gydag aelodau.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Ni chafwydd datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Rhaid i ran fwyaf o'r taliadau a nodir yn yr adroddiad blynyddol fod ar gael i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac mae cyllideb wedi'i ddyrannu i dalu am y taliadau.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

10.2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011